Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDOGOL
Gweithredol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

This document is available in English

# Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

# ADRODDIAD CYDYMFFURFIAETH 2023

01/04/2022 – 31/03/2023

## Cyflwyniad

Lluniwyd y papur hwn er mwyn rhoi trosolwg cryno o gydymffurfiaeth o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu dros y cyfnod o Ebrill 2022 – Mawrth 2023.

## Cynnwys

1. Gofynion Cyhoeddi
2. Y Gymraeg
3. Rheoli Gwybodaeth
4. Rheoli Cofnodion
5. Rhyddid Gwybodaeth
6. Cais Gwrthrych am Wybodaeth
7. Perygl
8. Parhad Busnes
9. Gorchymyn Protocol Plismona 2011
10. Hyfforddiant
11. Adnoddau Dynol
12. Gwaith Polisi

## 1. Gofynion Cyhoeddi

Disgwylir i SCHTh gyhoeddi peth wmbreth o wybodaeth ar gyfnodau amrywiol yn ystod y flwyddyn er mwyn bod yn dryloyw, rhoi gwybodaeth i breswylwyr a chydymffurfio â deddfwriaeth. Rhaid i bob SCHTh lynu wrth y gofynion fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau y bydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n cyhoeddi gwybodaeth am y canlynol:

- Pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud
- Beth maen nhw'n gwario a sut maen nhw'n ei wario
- Beth yw eu blaenoriaethau a sut maen nhw'n dod ymlaen
- Sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau
- Pa bolisïau a gweithdrefnau sy'n llywodraethu gweithrediad swyddfa CHTh
- Rhestri a chofrestri

Yn y blynyddoedd blaenorol, mae CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – Arbenigwyr Llywodraethu'r Heddlu) wedi asesu sut mae swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ar gyfer tryloywder. Ers 2021, penderfynwyd peidio â chynnal yr archwiliadau Nod Ansawdd Tryloywder, fodd bynnag, mae'r swyddfa wedi sicrhau bod yr holl ofynion cyhoeddi statudol yn cael eu bodloni fel busnes fel arfer.

Defnyddiodd yr asesiad blaenorol Ganllawiau cyhoeddi 2013 y Swyddfa Gartref ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyhoeddi gwybodaeth, yn seiliedig ar Orchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011, fel y sail ar gyfer sgorio pob gofyniad datgelu – h.y. bod y wybodaeth yn bodoli ac yn amserol. Mae'r Swyddfa Gartref yn datgan:

"Mae angen gwybodaeth annibynnol, gyson a chlir ar y cyhoedd am berfformiad a gweithgareddau eu CHTh. Mae tryloywder yn hanfodol er mwyn hybu hyder yn y CHTh etholedig. Bydd isafswm gofynnol cyson o dystiolaeth hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd gymharu perfformiad eu CHTh nhw â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu mewn ardaloedd eraill."

Er mwyn sicrhau bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cynnal ei sefyllfa o ran cyhoeddi, cynhelir gwiriadau rheolaidd ar y wefan gan y Pennaeth Sicrwydd a’r Rheolwr Busnes i sicrhau bod popeth yn gyfredol a'i fod bob amser yn adlewyrchu gwaith presennol y swyddfa.

Ar ôl adnewyddu’r wefan yn gynharach i gynnwys y logo a’r brand newydd, mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno gwefan newydd gwell y mae’n haws i’r cyhoedd gael mynediad ati.

## 2. Y Gymraeg


Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i rym ar 22 Mawrth 2016. Mae'r prif ddyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a dylent ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd o ddydd i ddydd.


Yn ôl y sefyllfa ym mis Ebrill 2019, gofyniad mynediad y Gymraeg ar gyfer yr holl staff a swyddogion yw gallu sgwrsio i safon lefel 1. Bydd staff a swyddogion presennol nad oes ganddynt allu yn y Gymraeg yn cael eu cefnogi i gyrraedd Cymraeg Lefel 1.

Sgiliau Iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| Lefel 0 | Dim Gallu |
| Lefel 1 | Gallu Cyfarch |
| Lefel 2 | Gwybodaeth Sylfaenol |
| Lefel 3 | Gallu Sgwrsio |
| Lefel 4 | Ffurfiol/Gallu Sgwrsio |
| Lefel 5 | Llawn a Chywir |

Nifer aelodau staff y SCHTh sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:




Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi mabwysiadu trefn fonitro newydd lle bydd y ffocws yn llawer iawn mwy ar nodi ble mae'r bylchau neu'r gwendidau a chymryd camau gweithredu i wella. Bydd y drefn hon yn digwydd dros gyfnod o bedair blynedd, gyda sefydliadau'n cael eu gwirio ddwywaith yn ystod yr amser hwnnw.

Yn dilyn cyfnod monitro rhwng Ionawr, Chwefror a Mawrth 2022, roedd tri phrif ganfyddiad yr oedd angen i'r swyddfa fynd i'r afael â nhw:

1. Nid yw gweithdrefn gwyno SCHTh yn cyfeirio at gwynion sy'n ymwneud â'r safonau a'r categorïau safonau, sydd ddim yn cydymffurfio â safonau 153 a 159.

Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys ac mae'r weithdrefn gwyno ar y wefan yn crybwyll hyn yn awr.

2. Yn ôl safonau 155, 161 a 167, mae'n ofynnol i SCHTh gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd yr ydych wedi cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredol. Yn eich holiadur safonau ategol, cyfeirioch at adroddiad blynyddol Heddlu Dyfed-Powys, fodd bynnag, mae'r safonau'n mynnu bod SCHTh yn cynhyrchu ei adroddiad ei hun sy'n annibynnol ar adroddiad Heddlu Dyfed-Powys.

Yn y blynyddoedd blaenorol, mae adroddiad ar y cyd wedi'i dderbyn, fodd bynnag, wrth fynd ymlaen, bydd SCHTh yn creu ei adroddiad ei hun. Mae'r Rheolwr Busnes wedi trefnu bod hyn yn cael ei gwblhau. Bydd angen iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd Medi 2023.

3. Nid oedd neges ar fersiwn Saesneg dogfennau ar y wefan i ddweud bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael, yn unol â gofyniad safon 47.

Mae pob dogfen Saesneg a oedd eisoes ar y wefan ac unrhyw ddogfennau newydd nawr yn dweud bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael.

- Mae gan SCHTh lefel dda iawn o sgiliau gallu Cymraeg ymysg ei staff. Ceir manylion llawn am y lefelau o fewn yr Heddlu (ar gyfer dibenion cymharu) yn yr adroddiad atodedig.

Welsh%20Languag
e%20data%20updat

- Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dorri gofynion o ran y Gymraeg gan SCHTh yn y flwyddyn ariannol hon ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y swyddfa â'r safonau.

- Hyfforddiant – Cynigiwyd cyfle i holl staff SCHTh fynychu gwersi Cymraeg. Mae sawl aelod staff wedi mynd ati i siarad mwy o Gymraeg yn y swyddfa er mwyn gwella eu sgiliau. Mae'r swyddfa wedi cyflwyno "Clwb Clecs" misol, sy'n fan diogel i staff gwrdd a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

- Mae'r Rheolwr Busnes yn mynychu cyfarfodydd Yr Iaith ar Waith chwarterol yr Heddlu sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa ddeall y materion presennol y mae'r heddlu'n eu hwynebu o ran y Gymraeg.

## 3. Rheoli Gwybodaeth

Rheoli Gwybodaeth yw'r broses o gasglu, cadw, rheoli a chynnal gwybodaeth o bob math. Rhaid i SCHTh gadw at y gofynion cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data (2018) a Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

- Yn dilyn darn o waith a oedd yn ystyried cyflwyno Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng yr Heddlu a SCHTh, ystyriwyd y byddai Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol cadarn a manwl yn ddigonol. Mae dealltwriaeth wedi bodoli erioed bod Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn cynnwys rhannu gwybodaeth rhwng SCHTh a'r Heddlu ac ystyrir y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn haen ychwanegol o amddiffyniad. Mae'r Fframwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol pan mae unrhyw faterion o gwmpas rhannu gwybodaeth yn cael eu hadolygu.

- Mae SCHTh wedi derbyn hyfforddiant o'r blaen ar yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ac maen nhw'n ymwybodol o'u cyfrifoldeb i'w gwblhau pan fod angen. Maen nhw'n derbyn cymorth gan adran Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu. Bydd hyfforddiant gloywi pellach yn cael ei ddarparu yn 2023/2024. Ynghyd ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae'n hanfodol cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar unrhyw Bolisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd y mae SCHTh yn ymgymryd â nhw er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb yn ein meysydd busnes. Mae'r asesiad yn broses a ddylai ddechrau ar y cam cynharaf wrth gyflwyno Polisi, Gweithdrefn neu Weithgaredd – ni ddylai fod yn ôl-ystyriaeth yn dilyn penderfyniad. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y canlynol:
    - Ymgynghoriadau ar y Cynllun Heddlu a Throseddu

- Y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr
- Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd
- Praesept Heddlu'r Dreth Gyngor

- Cofnodwyd 12 achos posibl o dorri rheoliadau diogelu data o fewn SCHTh eleni:

- Anfonwyd 1 e-bost ymlaen at fewnflwch SCHTh pan ddywedwyd na ddylid gwneud hyn. Cynghorwyd yr unigolyn a anfonodd yr e-bost ymlaen am ei gamgymeriad.
- Anfonwyd 1 e-bost ymlaen at grŵp mawr o dderbynwyr a rhannwyd eu cyfeiriadau e-bost.
- Dygwyd sylw at 3 e-bost a oedd o bosibl yn cynnwys un o 7 darn o ddata personol, ond ar ôl ymchwilio, gwelwyd nad oeddent yn cynnwys data o'r fath.
- Derbyniwyd 7 e-bost ym mewnflwch SCHTh gan sefydliadau allanol a oedd yn cynnwys data personol unigolion. Hysbyswyd yr anfonwyr am eu camgymeriad ac fe'u cynghorwyd i roi gwybod i'w Swyddog Diogelu Data. Dilëwyd pob e-bost ddwywaith o'n systemau.

Ym mhob amgylchiad, cofnodwyd yr achosion o dorri gofynion ar unwaith a chymerwyd y camau priodol. Hysbyswyd Swyddog Diogelu Data SCHTh. Ni ystyriwyd bod yr un o'r achosion uchod yn achosion y dylid adrodd amdanynt o dan GDPR y DU.

## 4. Rheoli Cofnodion

Mae SCHTh wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rhaid i SCHTh sicrhau bod ei chofnodion yn bodloni'r safonau angenrheidiol i ymdrin yn effeithiol â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Caiff polisi cadw a gwaredu SCHTh ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad.

Gyda Microsoft 365 wedi'i gyflwyno ar draws y swyddfa a nodweddion ychwanegol y pecyn *Teams*, mae staff yn cadw mwy o ddogfennau ar *Teams*, sydd angen cymorth a hyfforddiant ychwanegol ar set o reolau ar gyfer rheoli

dogfennau. Bydd hyn yn ffurfio rhan o’r amserlen ddysgu amser cinio yn ystod 2023-24.

Bydd archwiliadau ac arolygiadau i ddiogelu ein gwybodaeth ar bapur ac yn electronig yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn sicrhau ein bod ni’n cymryd mesurau priodol i warchod yr holl wybodaeth a brosesir gan ein swyddfa.

Mae'r Rheolwr Busnes yn mynychu cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth yr Heddlu sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa ddeall y materion cyfredol y mae'r Heddlu'n eu hwynebu o ran rheoli cofnodion.

## 5. Rhyddid Gwybodaeth

Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn ddarostyngedig i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i bawb ofyn am unrhyw wybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdod cyhoeddus. Mae’r hawl ond yn cwmpasu gwybodaeth gofnodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron, mewn negeseuon e-bost ac mewn dogfennau argraffedig neu ysgrifenedig, yn ogystal â delweddau, recordiadau fideo a sain. Rhaid i SCHTh ymateb i bob cais o'r fath o fewn 20 diwrnod gwaith.

- Derbyniwyd 75 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ym mlwyddyn ariannol 2022-23, cynnydd o 34 o'r flwyddyn flaenorol.

  Dim ond 25 o'r rhain oedd yn geisiadau lle'r oedd gan SCHTh y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Anfonwyd 50 i'r Heddlu gyda chaniatâd y ceisydd gan y gallai’r wybodaeth fod ganddyn nhw.

- Ymatebwyd i bob cais a wnaed i SCHTh o fewn yr amserlen reoleiddiol.

- Mae gan SCHTh fynediad at geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu er mwyn deall themâu'r ceisiadau sy'n cael eu gwneud. Mae testun ceisiadau gwybodaeth a gyflwynir i’r Heddlu’n amrywio, a gallant gael eu dylanwadu gan bynciau o ddiddordeb cyffredinol yn y wasg/cyfryngau ac o ddiddordeb neu bryder i’r cyhoedd. Derbyniodd yr Heddlu 1075 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod 2022-23, sydd 130 yn llai na’r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yn ystod misoedd olaf y cyfnod, roedd cynnydd sylweddol yn nifer y

ceisiadau ac roedd materion mewn perthynas ag amseroldeb yr ymatebion a ddarparwyd. Mae hwn yn faes y bydd SCHTh yn ei fonitro'n agos yn ystod 2023-2024.

## 6. Cais Gwrthrych am Wybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn rhoi'r hawl i bawb ofyn i sefydliad a ydynt yn defnyddio neu'n cadw eu gwybodaeth bersonol ai peidio. Gall unigolyn hefyd ofyn am gopïau o'i wybodaeth bersonol, ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Gelwir hyn yn hawl mynediad ac fe'i gelwir yn gyffredin yn gais gwrthrych am wybodaeth. Yn ôl deddfwriaeth, rhaid i SCHTh ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath o fewn mis.

Cyfrifoldeb SCHTh yn unig yw ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth.

- Derbyniwyd 18 cais gwrthrych am wybodaeth y flwyddyn ariannol hon; fodd bynnag, nid oedd gan SCHTh wybodaeth am 17 o'r testunau. Anfonwyd manylion atynt i gyd yn nodi sut i wneud eu cais i'r Heddlu os mai dyma'r hyn yr oeddent am ei wneud. Roedd thema debyg yn perthyn i'r ceisiadau i gyd, gyda phobl yn gofyn am fanylion am rybuddion yr oeddent wedi'u derbyn, cofnodion o ddigwyddiadau ac ati.
- Cwblhawyd 1 cais gwrthrych am wybodaeth gan SCHTh o fewn y terfyn amser o fis. Roedd hyn yn ymwneud ag ymholiadau am gopi o e-bost a anfonwyd yn 2019.

Ers 1 Chwefror 2020, os cofnodwyd cwyn unigolyn o dan Atodlen 3 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, caiff gyflwyno cais am adolygiad i'r Corff Adolygu Perthnasol, naill ai Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Teimlai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y byddai hyn yn arwain at gynnydd mawr yn nifer y Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth i Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, fodd bynnag, nid yw hyn wedi digwydd ar gyfer Dyfed-Powys.

## 7. Perygl

Mae’r Rheolwr Busnes yn cynnal Cofrestr Risg Corfforaethol SCHTh ac yn adrodd ar hyn wrth y tîm Gweithredol a’r Cyd-bwyllgor Archwilio ar sail chwarterol.

Er mwyn sicrhau bod y tîm Rheolwyr Uwch a Gweithredol yn goruchwylio’r holl beryglon, mae adroddiadau hefyd yn cael eu cynhyrchu ar eu cyfer pan fod angen y tu allan i’r adroddiadau chwarterol er mwyn tynnu sylw at unrhyw feysydd perygl newydd, y rhai sydd i’w gollwng a’r rhai hynny lle mae’r perygl wedi dwysáu neu leihau.

Mae’r maes perygl yn un sy’n cael ei ddatblygu gan SCHTh. Bydd y ffurf adrodd yn dilyn un yr Heddlu cyn hir er mwyn cysondeb. Bydd peth hyfforddiant wedi’i deilwra’n cael ei gyflawni yn ystod 2023-24 a fydd yn caniatáu i holl aelodau staff SCHTh gael gwell dealltwriaeth o’r peryglon a’r problemau.

Bydd perygl yn ffurfio rhan o agenda’r Bwrdd Plismona’n rheolaidd ac yn cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Anfonir gohebiaeth yn rheolaidd at bob aelod staff yn rhoi gwybod iddynt am beryglon diogelwch parhaus, yn arbennig yn yr amgylchedd ‘gweithio gartref’. Mae enghreifftiau’n cynnwys seiberddiogelwch – e-byst gwe-rwydo, e-byst twyllodrus, y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, y defnydd o dechnoleg gartref a chanllawiau ar gyfer adnabod e-byst gwe-rwydo.

## 8. Parhad Busnes

Mae pecyn cymorth Rheoli Parhad Busnes (RhPB) SCHTh ar waith i sicrhau bod staff yn gwybod beth i'w wneud pe bai sefyllfa'n codi lle terfir ar fusnesau ac na ellir cynnal arferion gwaith arferol. Mae'r pecyn cymorth yn amlinellu sut y byddai'r swyddfa'n ymateb yn effeithiol i adfer ei gweithgareddau a'i gwasanaethau.

Adolygir RhPB SCHTh yn flynyddol a chaiff yr holl gynnwys ei wirio ar gyfer cywirdeb a gwybodaeth ddilys.

Adolygwyd a diwygiwyd y pecyn cymorth ddechrau 2023 yn unol â’r diwygiadau a wnaed i’r templedi gan yr Heddlu.

## 9. Gorchymyn Protocol Plismona 2011 – Archwiliad Iechyd

Mae Adran 70 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol i bob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r berthynas o bedwar tu, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, datblygodd SCHTh archwiliad iechyd yn 2018 sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu bŵer cyfreithiol a dyletswydd drostynt.

- Mae'r archwiliad bellach yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes fyfyrio ar gofnodion blaenorol a newid arferion adrodd yn ôl y gofyn. Tra bod y Swyddfa'n ystyried ffyrdd amgen o gipio'r wybodaeth hon, mae fersiwn 5 wedi'i baratoi ar gyfer y flwyddyn 2023 – 24.
- Mae pob maes busnes o fewn SCHTh yn cyfrannu at yr archwiliad iechyd bob chwarter drwy gofnodi gwybodaeth reoli a chrynodebau o ba waith y maent wedi'i wneud er mwyn bodloni'r manylebau gofynnol.
- Cynhyrchir adroddiad o'r crynodebau hyn a gyflwynir i'r Panel Heddlu a Throseddu ac a gyhoeddir ar wefan SCHTh.
- Cynhyrchir crynodeb o'r archwiliad iechyd bob chwarter ar gyfer y Tîm Gweithredol sy'n manylu ar bob maes gyda sgôr CAG.

## 10. Hyfforddiant

Rhoddir cyfle i holl aelodau staff SCHTh fynd i sesiynau hyfforddi rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt yr offer a'r sgiliau i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r system arfarnu (Proffil Asesu Datblygiad) yn caniatáu i reolwyr llinell fonitro hyfforddiant staff a thrafod unrhyw ofynion.

Cynhelir olrheiniwr presenoldeb hyfforddiant gan y Swyddfa ac mae staff yn ei gwblhau pan maen nhw wedi mynychu unrhyw hyfforddiant newydd y mae'r Rheolwr Busnes yn ei nodi ac yn rhoi gwybod amdano.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol i'r holl staff ymgymryd â modiwlau NCALT gorfodol (y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymhwysol) ar

amrywiaeth o bynciau er mwyn sicrhau eu bod yn wybodus am bynciau sy'n effeithio arnynt, e.e. Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data, Gweithio Ar Eich Pen eich Hun

- Disgwylir i bob rheolwr llinell wirio lefelau cwblhau modiwlau NCALT fel rhan o'u trafodaethau Proffil Asesu Datblygiad gyda staff. Mae matrics hyfforddiant ar waith sy'n rhestru'r rhain i gynorthwyo gyda'r broses hon. Mae lefelau cydymffurfio staff yn dda iawn, gyda'r rhan fwyaf o staff yn cydymffurfio dros 95%.

- Mae adegau pan fydd yr Heddlu'n gofyn i fodiwl NCALT penodol gael ei gwblhau gan yr holl staff. Mae'r Rheolwr Busnes yn cyfleu hyn i'r holl staff ac yn ei roi ar y matrics hyfforddiant. Mae ceisiadau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi cynnwys hyfforddiant Awtistiaeth a rhagfarn anymwybodol o ran stopio a chwilio.

## 11. Adnoddau Dynol

Darperir adroddiad data absenoldeb i'r Tîm Gweithredol ar sail flynyddol i sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw faterion absenoldeb sy'n codi, unrhyw batrymau, oriau cyfartalog a gollwyd, lefelau canran ac ati.

## 12. Ymatebion AHEF

Cyflwynwyd 10 ymateb i AHEF yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Archwiliad thematig ar y cyd o ymateb yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i drais – Cam Dau.

Archwiliad Thematig ar y Cyd o Drefniadau Amlasiantaeth Er Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA).

Effaith y pandemig COVID-19 ar y system cyfiawnder troseddol – adroddiad cynnydd.

Cam-drin domestig a gyflawnir gan aelodau'r heddlu: Adroddiad ar uwch-gŵyn y Ganolfan Cyfiawnder Menywod.

Arolygiad 2021/22 o Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL).

Ymateb yr Heddlu i fyrgleriaethau, lladradau a throseddau meddiangar eraill
Archwiliad o fetio, camymddwyn a chasineb at wragedd yn y gwasanaeth heddlu.

Archwiliad i ba mor dda mae'r heddlu ac asiantaethau eraill yn defnyddio gwaith fforensig digidol yn eu hymchwiliadau.

Sut mae'r heddlu'n ymateb i ddioddefwyr cam-drin rhywiol pan mae'r dioddefydd o leiafrif ethnig ac o bosibl mewn perygl o gam-drin ar sail anrhydedd: Adroddiad ar Brosiect Cynhwysiant Dyffryn Tees.

Gwerthoedd a Diwylliant mewn Gwasanaethau Tân ac Achub.